



Cynllun Iaith Gymraeg



YR ASIANTAETH TALIADAU GWLEDIG

Cynllun Iaith Gymraeg

Cynllun Iaith Gymraeg a baratowyd dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Derbyniodd y Cynllun hwn gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg dan adran 14 (i) Deddf yr Iaith Gymraeg ar 7 Ionawr 2005.

Cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth am unrhyw agwedd ar y Cynllun hwn, cysylltwch â:

Peter Crewe
Swyddfa'r Prif Weithredwr
Yr Asiantaeth Taliadau Gwledig
Kings House
Blwch Post 69
Reading RG1 3YD
Ffôn: 0118 953 1907

Yr Asiantaeth Taliadau Gwledig

Cynllun Iaith Gymraeg

Mae'r Asiantaeth Taliadau Gwledig (ATG) wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gyflawni busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn gydradd. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y bydd yr ATG yn rhoi'r egwyddor honno ar waith wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Y CYNLLUN

Rhagair

- Cymeradwywyd y cynllun hwn gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 7 Ionawr 2005.
- Mae Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a Bwrdd Perchnogaeth yr ATG, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o Adran Amaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cytuno arno ac yn rhoi eu cefnogaeth lwyr iddo.
- Rhoddwyd cyhoeddusrwydd iddo ymhlith staff yr ATG a'r cyhoedd.
- Fe'i cynlluniwyd i ddarparu gwasanaethau'r ATG mewn ffordd gadarnhaol ac effeithiol i gwsmeriaid yng Nghymru.
- Wrth lunio'r mesurau a nodir yn y cynllun, ystyriwyd beth sy'n briodol dan yr amgylchiadau a beth sy'n rhesymol ymarferol.
- Efallai y bydd yr ATG, o bryd i'w gilydd, yn cyflwyno diwygiadau i'r cynllun i Fwrdd Iaith Gymraeg. Ni fydd y Cynllun yn cael ei newid heb gymeradwyaeth y Bwrdd.

Cyflwyniad

1. Sefydlwyd yr ATG yn 2001 fel Asiantaeth Weithredol i Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra). Dyma asiantaeth talu'r UE sy'n gyfrifol am gynlluniau'r Polisi Amaeth Cenedlaethol (PAC) yn Lloegr ac am rai cynlluniau ledled y DU.
2. Mae'r ATG yn gyfrifol am fesurau'r PAC a gyllidir drwy Adain Warantu Cronfa Gyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop (EAGGF) a ddirprwyir iddi yn Lloegr, a lle y bo'n briodol, y DU. Mae hefyd yn darparu data hygyrch ac o ansawdd da ar olrhain anifeiliaid o fewn Prydain Fawr. Am restr gyflawn o bob cynllun a weinyddir ar ran y Swyddfa Gymreig, gweler Atodiad B os gwelwch yn dda. Mae'r ATG yn darparu oddeutu £2 biliwn o daliadau i ffermwyr a masnachwyr dan amrediad o wahanol gynlluniau.
3. Pennir y polisi cyffredinol a'r fframwaith ariannol y mae'r ATG yn gweithredu o'i fewn, gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, mae'r ATG yn gweithredu ar ran y Gweinyddiaethau Datganoledig drwy'r Cytundebau Asiantaeth priodol.
4. Yr ATG yw'r corff ariannu yn y DU sy'n gyfrifol am ariannu cynlluniau'r PAC a weinyddir gan holl asiantaethau talu'r DU ac mae'n gyfrifol am dderbyn a gweinyddu arian o Adain Warantu Cronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop (EAGGF).
5. Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am reolaeth yr ATG o ddydd i ddydd, gyda chefnogaeth uwch dîm rheoli. Mae Bwrdd Perchnogaeth, y mae ef yn aelod ohono, yn darparu cyfeiriad strategol a goruchwyliaeth i'r ATG.
6. Ar hyn o bryd mae'r ATG yn cyflogi oddeutu 3,500 o staff yn ein swyddfeydd yn Reading, Caerliwelydd, Caerwysg, Newcastle, Northallerton, Crewe, Nottingham a Workington (Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain). Nid oes gan yr ATG unrhyw swyddfeydd yng Nghymru.
7. Cyfunwyd yr ATG â Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (GSGP) ym mis Ebrill 2003. Sefydlwyd GSGP yn 1998 i reoli'r System Olrhain Gwartheg (SOG), sydd ag oddeutu 17,950 o gwsmeriaid yng Nghymru. Prif swyddogaeth GSGP yw creu a chynnal cronfa ddata gywir o wartheg, eu lleoliad a hanes eu symud ym Mhrydain Fawr. Eu prif gwsmeriaid yw ceidwaid gwartheg a'u hasiantau, arwerthwyr da byw, cymdeithasau bridiau gwartheg a phobl eraill yn y diwydiant cynhyrchu da byw. Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n gyfrifol am waith y GSGP yng Nghymru.
8. Mae cyhoeddi'r cynigion dan Ddiwygiadau'r PAC ym mis Mehefin 2003 wedi arwain at newid mawr yn y busnes. Un mater allweddol y canolbwyntir arno yw'r Cynllun Taliad Sengl newydd a gyflwynir ym mis Ionawr 2005. Bydd yr ATG yn parhau â'i Rhaglen Newid i foderneiddio'i systemau, sy'n golygu y gwneir mwy o ddefnydd o dechnoleg ac arloesedd i ddarparu gwasanaethau'n effeithiol ac effeithlon.

9. Mae'r cynllun yn berthnasol i'r cyfrifoldebau uniongyrchol sydd gan yr ATG ar hyn o bryd mewn perthynas â Chymru (gweler Atodiad B).

CYNLLUNIO A CHYFLWYNO'R GWASANAETH

Polisiau a chynlluniau newydd

10. Mae polisiau a chynlluniau newydd fel arfer yn codi o benderfyniadau a wneir un ai gan yr Undeb Ewropeaidd ym Mrwsel neu gan Adrannau Amaeth y DU, ac fe'u cyflwynir gan yr ATG fel bo angen. Bydd yr ATG yn asesu goblygiadau unrhyw bolisiau/cynlluniau newydd i sicrhau bod unrhyw rai fydd yn berthnasol yng Nghymru yn unol â'r ymrwymadau yn y Cynllun hwn. Rhoddir cyfarwyddyd i'r staff ystyried yr effeithiau ar yr iaith Gymraeg cyn cyflwyno unrhyw bolisi neu gynllun newydd.

11. Pan fydd polisiau a chynlluniau newydd yn cael eu llunio a'u gweithredu, byddwn yn gwneud y canlynol:

- sicrhau bod y staff wedi ystyried yr angen am ddeunydd yn y Gymraeg ac wedi cynllunio ar gyfer ei gynhyrchu;
- sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dan y Ddeddf, fel eu bod yn sicrhau bod polisiau, gweithdrefnau a chyhoeddiadau newydd yn gydnaws â'r ymrwymadau yn ein Cynllun Iaith Gymraeg; a
- sicrhau bod polisiau a chynlluniau newydd yn gyson â'n Cynllun Iaith Gymraeg ac nad ydynt yn ei danseilio.

Byddwn yn sicrhau fod yr holl staff sy'n ymwneud â pholisiau newydd yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg. Gwneir hyn drwy hysbysiad ledled yr ATG a chyfathrebu pellach rhwng ein Huned Iaith Gymraeg a'r rhai yn yr ATG sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r cyhoedd yng Nghymru.

12. Byddwn yn ymgynghori ymlaen llaw â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ynglŷn â newidiadau fydd yn effeithio ar y Cynllun, ac ni fyddwn yn newid y Cynllun heb gytundeb y Bwrdd.

Darparu gwasanaeth

13. Mae'r ATG yn gweithio tuag at ddarparu gwasanaeth dwyieithog. Mae hyn yn golygu gwasanaeth dwyieithog ar gyfer y System Olrhain Gwartheg (SOG) ac ar gyfer system Cofrestru Cwsmeriaid a Chanolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid yr ATG. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut yr ydym yn cymryd camau i gydymffurfio ag egwyddorion Deddf yr Iaith Gymraeg a Chanllawiau a chynghor Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae'n amlinellu sut y bwriadwn ddarparu a threfnu gwahanol wasanaethau yn Gymraeg ac yn nodi amserlen ar gyfer gweithredu'r Cynllun.

14. Byddwn yn annog pob mudiad arall yr ydym yn ymwneud â hwy i roi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg. Byddwn yn gwneud hyn drwy gynnwys gofyniad yn ein cytundebau a'n contractau gweithredu a/neu drwy roi hysbysiad ysgrifenedig o'n dymuniadau. Er enghraifft, anogir y rheiny sy'n gweithredu fel asiantau ar ein rhan yng Nghymru drwy wneud archwiliadau adnabod gwartheg ar ffermydd, i gynnig gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg wrth ymwneud â cheidwaid gwartheg, a bydd contractau'r sawl sy'n paratoi deunyddiau at ddefnydd yr ATG

yng Nghymru ym maes taliadau e.e. anfonebau i geidwaid gwartheg, yn nodi y dylent gynhyrchu dogfennau dwyieithog.

15. Bydd yr ATG yn gwneud y canlynol:

- darparu deunydd yn yr iaith Gymraeg fel y bo'n briodol (rhydd Atodiad C arweiniad i staff ar asesu hyn);
- sicrhau bod yr ATG yn cynnal cofrestr o'r cwsmeriaid hynny sydd wedi mynegi pa iaith sydd orau ganddynt;
- sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg;
- annog trydydd partïon (e.e. mudiadau ffermwyr, marchnadoedd da byw, lladd-dai a swyddogion gorfodaeth) sy'n cyhoeddi arweiniad ar drefniadau i'r cyhoedd yng Nghymru, i wneud hynny yn Gymraeg ac yn Saesneg; a
- chyflogi cyfieithwyr allanol proffesiynol.

16. Mewn achosion lle y gellid trosglwyddo gwybodaeth i fudiadau eraill, megis yr heddlu neu Dollau Tramor a Chartref EM, tynnir sylw'r mudiad sy'n derbyn y wybodaeth, at fanylion ynglŷn â'r ddewis iaith (pan fo'r dewis yn wybyddus) drwy gyfrwng llythyr o eglurhad.

17. Pan fo gwasanaethau'n cael eu darparu i'r cyhoedd yng Nghymru gan fudiadau eraill ar ein rhan, byddwn yn cyflwyno cymal yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth yn nodi'r angen iddynt gefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg wrth ddarparu'r gwasanaethau hynny.

Safon gwasanaeth a thargedau

18. Mae'r ATG yn ymroi i ddarparu gwasanaeth o'r un ansawdd uchel yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Gwneir yr ymrwymiad hwn yn glir ym mhob deunydd a gyhoeddir am weithgareddau'r ATG yng Nghymru. Nodir safon y gwasanaeth a addewir gennym yn ein taflen i gwsmeriaid *Ein hymrwymiad i ofal cwsmer da*.

19. Nodir y targedau ar gyfer ymdrin â gohebiaeth ac ymholiadau dros y ffôn yn *Ein hymrwymiad i ofal cwsmer da* a byddant yr un fath ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd y targedau hyn yn cael eu monitro gan yr ATG er mwyn sicrhau cysondeb safon y gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg.

DELIO AG AELODAU'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG

Cyfathrebu dros y ffôn

20. Byddwn yn darparu dwy linell gymorth Gymraeg sydd â'u rhifau ffôn eu hunain gan roi cyhoeddusrwydd i'r rhain ym mhob deunydd cynghori a hyrwyddo. Mae un llinell gymorth eisoes yn weithredol. Fe'i lleolir yn swyddfeydd CSGP yn Workington ac mae'n ymwneud ag ymholiadau ynglŷn â'r System Orlhain Gwartheg (SOG). Datblygir y llall yn ein Canolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid yn Newcastle a bydd yn ymdrin ag ymholiadau ynglŷn â phob maes busnes arall. Bydd siaradwyr Cymraeg yn staffio'r llinellau cymorth Cymraeg a bydd y gwasanaeth hwn ar gael yn ystod yr un oriau â'n llinellau cymorth Saesneg.

21. Pan wneir galwad i'n swyddfeydd, byddwn yn sicrhau'r canlynol:

- os bydd y galwr yn dymuno siarad Cymraeg, bydd y sawl sy'n ateb y ffôn yn cyfeirio'r alwad i linell gymorth Gymraeg;
- os bydd y galwr yn ffonio rhif cyswllt yn uniongyrchol ac yn dymuno siarad Cymraeg, gall ddewis cael ei ail-gyfeirio i linell Gymraeg neu gallai'r alwad barhau yn Saesneg, ac
- os yw'r ymholiad yn un cymhleth neu arbenigol, gwahoddir y galwr i ysgrifennu llythyr ac yna anfonir ateb ysgrifenedig yn y Gymraeg. Dyma'r drefn a ddilynnir fel arfer mewn perthynas ag ymholiadau cymhleth yn Saesneg.

22. Os digwydd i siaradwr Cymraeg gysylltu â ni ar unrhyw linell ffôn arall, bydd staff di-Gymraeg yn esbonio i alwyr Cymraeg nad ydynt yn medru siarad Cymraeg. Os bydd y galwr yn dymuno siarad Cymraeg, bydd y staff yn ceisio cysylltu'r person sy'n galw â siaradwr Cymraeg. Os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael ar y pryd, rhoddir y dewis i'r galwr naill ai i gael siaradwr Cymraeg i'w ffonio'n ôl neu barhau gyda'r alwad yn Saesneg.

23. Bydd staff arbenigol y switsfwrdd a staff eraill yn cael cyfarwyddyd ynghylch y drefn sydd i'w dilyn pan dderbynnir galwadau yn Gymraeg. Cedwir rhestr gyfredol o'r staff sy'n medru'r Gymraeg er mwyn i'r staff wybod i bwy y gellir trosglwyddo galwadau.

24. Bydd staff sy'n derbyn galwadau deialu uniongyrchol yn Gymraeg hefyd yn dilyn y drefn uchod.

Cyfarfodydd cyhoeddus a heb fod yn gyhoeddus

25. Yn anaml iawn y mae angen i'r ATG drefnu cyfarfodydd neu wrandawiadau cyhoeddus yng Nghymru. Fodd bynnag, os byddwn yn cynnal cyfarfodydd o'r fath, bydd gwahoddiadau'n hysbysebu'r cyfarfodydd yn egluro fod croeso i gyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gofynnir i'r sawl sy'n dod i'r cyfarfod roi gwybod i'r trefnydd ymlaen llaw a ydynt am siarad Cymraeg ynteu Saesneg er mwyn trefnu cyfleusterau cyfieithu addas.

26. Os bydd cwsmer o Gymru'n ymweld ag un o swyddfeydd yr ATG, byddwn yn gofyn pa iaith sydd orau ganddynt wrth drefnu'r cyfarfod. Byddwn wedyn yn gwneud trefniadau priodol i gwrdd â'u hanghenion, gan gynnwys darparu cyfieithydd os oes angen.

27. Yn ogystal â chyfarfodydd cyhoeddus, efallai y byddwn hefyd yn cynnal cyfarfodydd eraill gydag unigolion a chyrff. Pan fyddwn yn trefnu cyfarfod ymlaen llaw, byddwn yn gofyn i'r rheini sy'n bwriadu bod yn bresennol pa iaith y dymunant ei defnyddio. Os mai Cymraeg yw'r ddewis iaith, byddwn wedyn yn gwneud trefniadau priodol i gwrdd â'u hanghenion, gan gynnwys darparu cyfieithydd os oes angen. Mae hyn yn berthnasol hefyd i fideo-gynadleddau.

Os gelwir cyfarfod heb roi rhybudd ac nad oes siaradwr Cymraeg ar gael, byddwn yn cynnig yr opsiwn o barhau yn Saesneg neu aildrefnu'r cyfarfod ar ddyddiad pryd y gellir sicrhau fod siaradwr Cymraeg ar gael.

Os mai Cymraeg yw dewis iaith cynhyrchydd sydd dan archwiliad, byddwn yn gwneud trefniadau priodol i gwrdd â'u hanghenion. Mae hyn hefyd yn berthnasol i gyfweiliadau â phobl sy'n cael eu drwgdybio neu ymweliadau craffu gan yr Uned Gydymffurfio ac Atal Twyll.

28. Rhoddir cyfarwyddyd i'r staff ynghylch y drefn sydd i'w dilyn wrth drefnu cyfarfodydd yng Nghymru gyda phobl y gwyddom ei bod yn well ganddynt gyfathrebu yn Gymraeg.

Cyfathrebu ysgrifenedig

29. Mae'r ATG yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg. Byddwn yn sicrhau:

- y bydd unrhyw lythyrau a ysgrifennir yn Gymraeg yn derbyn ateb wedi'i lofnodi yn Gymraeg.
- y bydd ein hamserau targed ar gyfer atebion yn Gymraeg ac yn Saesneg yr un fath, a byddwn yn monitro pa mor dda fydd ein perfformiad. Pan na fydd yn bosibl ateb o fewn terfyn amser penodol, bydd y llythyrwr yn derbyn cydnabyddiaeth yn Gymraeg fod y llythyr wedi'i dderbyn.
- pan fyddwn yn gohebu â grŵp neu unigolyn y mae'n well ganddynt ddefnyddio'r Gymraeg, byddwn yn ysgrifennu yn yr iaith honno. Bydd hyn yn cynnwys cylchlythyrau a llythyrau safonol.
- y bydd gohebiaeth sy'n tarddu o gyfarfodydd Cymraeg wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, hefyd yn Gymraeg, oni fo'r derbynydd wedi gofyn yn wahanol.

30. Mae'r ymrwymiadau hyn hefyd yn berthnasol yn yr un modd i ohebiaeth a gynhyrchir yn electronig.

31. Byddwn yn cyhoeddi canllawiau i'r holl staff gan ddisgrifio'r drefn i'w dilyn mewn perthynas â gohebiaeth. Gwneir trefniadau i sefydlu gwasanaeth cyfieithu effeithiol er mwyn i ni ymdrin â gohebiaeth yn ddi-oed. Bydd cyfarwyddiaethau'n cadw cofnod o'r cyrff a'r unigolion hynny y byddant yn cysylltu'n rheolaidd â hwy

y mae'n well ganddynt ohebu yn Gymraeg ac yn sicrhau bod y cofnod hwnnw'n cael ei ddiweddarau'n gyson.

Gohebiaeth arall

32. Bydd yr ATG yn defnyddio'i gwefan (www.rpa.gov.uk) i sicrhau fod deunydd yn yr iaith Gymraeg ar gael yn rhwydd. Bydd yr ATG yn sicrhau y bydd o leiaf y canlynol yn ymddangos ar wefan yr ATG yn Gymraeg:

- cyflwyniad i'r ATG;
- Cynllun iaith Gymraeg yr ATG yn Gymraeg ac yn Saesneg;
- rhestr o gyhoeddiadau, ffurflenni a nodiadau cyfarwyddyd ar gael yn Gymraeg;
- rhestr o dermau Cymraeg;
- datganiadau i'r wasg yn ymwneud â gweithgaredd yng Nghymru; ac
- unrhyw ddogfennau a gyhoeddir ar ffurf copïau caled yn Gymraeg.

33. Mae sianel e-fusnes y System Orlhain Gwartheg, SOG Ar-lein (www.bcms.gov.uk) yn gwbl ddwyieithog.

Achosion llys

34. Pan fyddwn yn cychwyn achos llys yn erbyn person yng Nghymru, byddwn yn cychwyn yr achosion hynny mewn llys yng Nghymru, fel y gall y parti dan sylw weithredu eu hawliau dan Deddf yr Iaith Gymraeg Cychwynnir yr achos yn Gymraeg pan fo'r parti arall yn gwneud cais am hynny, neu pan fo gohebiaeth flaenorol yn nodi fod angen hynny.

35. Bydd ATG yn gwneud popeth yn ei allu i hwyluso cynnal achosion yn Gymraeg os mai dyna ddymuniad y parti arall.

WYNEB CYHOEDDUS YR ATG

Hunaniaeth gorfforaethol

36. Bydd pen llythyrau, papurau cyfarch, taflenni ffacs a chardiau busnes a gyhoeddir gan yr ATG ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn dangos yr enw, cyfeiriad ac unrhyw wybodaeth safonol arall, yn ddwyieithog. Bydd y rhain yn cynnwys logo dwyieithog.

37. Pan fyddwn yn defnyddio llythyrau a gynhyrchir gan ein system lle bo'r wybodaeth wedi'i chaled-godio yn Saesneg, deuir â gwybodaeth ddwyieithog i mewn fesul cam (gweler Atodiad A).

Arwyddion gwybodaeth

38. Nid oes gan yr ATG unrhyw swyddfeydd yng Nghymru. Fod bynnag, pe digwyddai i swyddfa gael ei sefydlu yng Nghymru yn y dyfodol, byddai'r Asiantaeth yn darparu arwyddion gwybodaeth dwyieithog mewn manau a ddefnyddir gan y cyhoedd, gan roi cydraddoldeb i'r ddwy iaith yn nhermau fformat, maint, ansawdd, amlygrwydd a bod yn ddarllenadwy.

Cyhoeddiadau a deunydd a argreffir

39. Pan fo'n briodol (gweler Atodiad C) bydd yr ATG yn darparu fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân o ddeunydd yn ymwneud â'r cynllun. Bydd y ddau fersiwn yn cael eu paratoi ar yr un pryd a bydd yr un mor hawdd cael gafael arnynt.

40. Ar gyfer y SOG, mae'r holl ddeunydd a fwriedir ar gyfer ein cwsmeriaid yng Nghymru bellach ar gael yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg. Lle bynnag y bo modd, cynhyrchir un ddogfen ddwyieithog.

41. Mewn rhai achosion, efallai na fydd modd cynhyrchu dogfen ddwyieithog oherwydd rhesymau technegol neu resymau eraill (e.e. nifer y copïau a argreffir, cost, amseru, y galw tebygol, gwerth am arian neu oherwydd y rhwydwaith dosbarthu a ragwelir). Dan amgylchiadau o'r fath, cyhoeddir fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Drwy flaengynllunio byddwn yn anelu at sicrhau y bydd y ddau fersiwn ar gael yr un pryd a bydd y ddau'n cynnwys neges glir fod fersiwn yn yr iaith arall hefyd ar gael. Os arddangosir hwy, dangosir y ddau fersiwn gyda'i gilydd. Sicrheir bod y ddau fersiwn ar gael fel ei gilydd, boed dros y cownter neu drwy'r post. Os codir tâl am ddogfen, yr un fydd pris y fersiwn Cymraeg a'r fersiwn Saesneg. Pan nad oes angen ond nifer bychan o fersiynau Cymraeg, cynhyrchir y rhain yn electronig ar yr un pryd ac yn yr un fformat a'r fersiwn Saesneg, ond nid argreffir hwy ond pan dderbynnir cais.

42. Ni fydd paragraffau 39-41 yn berthnasol i ddogfennau technegol a anelir at gynulleidfa gyfyngedig neu arbenigol, neu ddogfennau mawr iawn a fydd, er eu bod ar gael i'r cyhoedd, yn annhebygol o ennyn diddordeb cylch eang o bobl.

43. Cynghorir ein staff ynghylch y drefn i'w dilyn wrth gynhyrchu deunydd i'w ddefnyddio yng Nghymru. O ddewis, fersiynau dwyieithog fyddai orau, a rhoddir

canllawiau clir i staff ynghylch pa bryd y byddai fersiynau mewn un iaith yn dderbyniol. Rhydd Atodiad C arweiniad ar bwysu a mesur yr angen i gyfieithu dogfen.

Ffurflenni a deunyddiau cysylltiedig

44. Sicrheir fod ffurflenni a deunydd cysylltiedig ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan ddilyn y canllawiau yn Atodiad C, neu pan dderbynnir cais.

45. Pan na fydd cynhyrchu un ddogfen ddwyieithog o bosibl yn ymarferol, cynhyrchir fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Fe'u cyhoeddir yr un pryd, ond mewn achosion eithriadol.

46. Bydd deunyddiau a gynhyrchir mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân yn cael eu harddangos gyda'i gilydd, gan roi'r un amlygrwydd i'r ddau. Ar ffurflenni newydd, neu pan ail-argreffir ffurflenni, ychwanegir datganiad dwyieithog yn nodi fod fersiwn ar gael yn yr iaith arall. Pan nad yw cwsmer yng Nghymru wedi nodi'r iaith sydd orau ganddo, cynigir dewis iddynt, neu anfonir y ddau fersiwn atynt.

47. Bydd ffurflenni'n ymwneud â'r SOG a anfonir i'r cyhoedd yng Nghymru'n ddwyieithog. Fel arfer, cynhyrchir un ddogfen ddwyieithog, ond lle byddai un ddogfen yn rhy hir, yn rhy gymhleth neu'n rhy anodd ei phrosesu, bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r un ffurflen ar wahân ar gael ar yr un pryd ac yn cael eu cyhoeddi gyda'i gilydd. Bydd neges glir ar y naill a'r llall yn nodi bod fersiwn ar gael yn yr iaith arall.

Datganiadau newyddion

48. Drwy gynllunio ymlaen llaw, ceisir sicrhau bod datganiadau newyddion ynglŷn â gweithgareddau'r ATG yng Nghymru'n cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog. Fodd bynnag, weithiau, bydd yn rhaid rhyddhau datganiadau newyddion ar fyr rybudd ac efallai na fydd hyn yn caniatáu amser ar gyfer cyfieithu datganiadau i'r cyfryngau Cymraeg cyn y rhyddheir y fersiwn Saesneg.

Hysbysebu a chyhoeddusrwydd

49. Byddwn yn trin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn gydradd wrth gynllunio ymgyrchoedd hysbysebu a chyhoeddusrwydd yng Nghymru. Cynhyrchir deunydd yn ddwyieithog neu ar ffurf fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Lle gosodir hysbysiadau a hysbysebion swyddogol mewn papurau newydd a chylchgronau a ddsberthir yng Nghymru'n bennaf, bydd y rhain yn ymddangos gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd. Bydd y ddwy iaith yn cael eu trin yn gydradd o ran fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

50. Bydd deunyddiau hyrwyddo i'w defnyddio yng Nghymru, megis fideos, tapiau sain ac ymgyrchoedd gwybodaeth ar y radio a'r teledu hefyd yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog.

51. Byddwn yn cynnal arolygon cyhoeddus yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg, boed hynny drwy gyfrwng cyfweiliad wyneb yn wyneb, neu ar ffurf

holiadur ysgrifenedig. Cynhelir ein harolwg cwsmeriaid blynyddol yn Gymraeg ac yn Saesneg.

52. Mewn arddangosfeydd, cynadleddau a seminarau yng Nghymru, bydd ein harddangosiadau a'n deunyddiau stondinau yn ddwyieithog, a bydd y staff yn medru ymdrin ag ymholiadau yn y naill iaith neu'r llall.

53. Pan fydd ein staff yn cynllunio ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd yng Nghymru, byddant yn cael cyfarwyddyd manwl er mwyn sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gydradd.

Hysbysiadau swyddogol

54. Bydd yr holl hysbysiadau swyddogol a roddir yn y wasg a chyfryngau eraill yng Nghymru'n cael eu cynhyrchu yn Gymraeg ar gyfer y wasg Gymraeg ac yn ddwyieithog ar gyfer cyhoeddiadau eraill sy'n cael eu gwerthu'n bennaf yng Nghymru. Defnyddir y Saesneg ar gyfer y wasg yn y DU a'r wasg arbenigol.

GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN

Staff sy'n medru'r Gymraeg

55. Bydd ein gallu i gynnig gwasanaethau yn Gymraeg yn dibynnu ar sicrhau bod gennym ddigon o siaradwyr Cymraeg at ein defnydd sydd â'r sgiliau priodol. Rydym ar hyn o bryd yn cynnig gwasanaeth llawn trwy gyfrwng y Gymraeg yn y GSGP a'n nod yw cynnal hyn. Byddwn yn parhau i weithredu'r egwyddor gyffredinol o recriwtio siaradwyr Cymraeg cynhenid ar gyfer swyddi lle y mae bod yn rhugl yn yr iaith yn elfen allweddol o'r gwaith.

56. Mae'r ATG yn symud tuag at weithredu drwy'r ganolfan gwasanaeth cwsmeriaid, a'n nod yw y bydd y Ganolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid newydd wedi'i harfogi'n llawn ar gyfer darparu gwasanaeth i gwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg. Felly ni fydd angen siaradwyr Cymraeg ymysg y staff eraill sy'n gweithio yn y swyddfeydd. Bydd y Ganolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid yn recriwtio'n neilltuol o blith siaradwyr Cymraeg ar gyfer y llinell ffôn Gymraeg.

57. Byddwn yn ei gwneud yn flaenoriaeth i roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith ein bod yn croesawu siaradwyr Cymraeg i'r gweithlu. Pan fyddwn yn hysbysebu swyddi yr ydym wedi nodi fod angen siaradwyr Cymraeg ar eu cyfer, byddwn yn nodi bod angen i ymgeiswyr ddod yn foddhaol rugl o fewn cyfnod y cytunwyd arno. Lle'r ystyrir bod gallu ieithyddol yn hanfodol neu'n ddymunol ar gyfer y swydd, nodir hynny yn y disgrifiad swydd.

58. Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd yn rhaid i ni gyflogi person nad yw'n siarad Cymraeg, i swydd lle yr ystyrir fod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol. Yn yr achos hwn, byddwn yn nodi yn yr amodau cyflogaeth bod yn rhaid i'r gweithiwr gytuno i ddysgu'r iaith o fewn cyfnod o amser y cytunir arno, gyda chefnogaeth llawn yr ATG. Bydd hyn yn cynnwys cysylltu gyda siaradwyr Cymraeg cynhenid sy'n gweithio i ni. Byddwn yn gosod amserlen ar gyfer adolygu'r cynnydd a wneir yn rheolaidd. Yn yr amgylchiadau hyn, oni chyrhaeddir lefel derbyniol o ruglder o fewn yr amserlen a osodwyd, cymerir agwedd hyblyg gan ganiatáu mwy o amser i ddatblygu tuag at y safon ofynnol.

Hyfforddiant ar gyfer staff

59. Mae'r ATG wedi ymrwymo'n llawn i annog a chefnogi staff i ddysgu Cymraeg pan fyddai hynny o fudd i'r gwasanaeth a ddarperir. Lle y byddai o fudd i'r ATG i staff dysgu Cymraeg, rhoddir cefnogaeth iddynt drwy hyfforddiant neu gysiau y telir amdanynt gan yr ATG. Bydd pobl sy'n darparu hyfforddiant yn yr iaith Gymraeg yn cael eu cloriannu a'u dethol ar y sail eu bod yn cyflawni ein hanghenion busnes yn ogystal ag anghenion aelodau unigol o'r staff.

60. Gwahoddir pob aelod o staff y GSGP i ystyried a fyddent yn elwa o gael hyfforddiant galwedigaethol yn yr iaith Gymraeg fel rhan o'r broses o lunio'u Cynlluniau Datblygu Personol.

Trefniadau gweinyddol

61. I sicrhau bod yr holl staff yn gwybod beth a ddisgwylir oddi wrthynt mewn perthynas â'n Cynllun Iaith Gymraeg, byddwn yn cyhoeddi nodiadau

cyfarwyddyd ysgrifenedig ar yr amgylchiadau pryd y byddwn yn defnyddio'r Iaith Gymraeg a beth sydd angen i'r staff ei wneud i gwrdd â'n hymrwymiaidau.

62. Mae Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr yr ATG yn gyfrifol am sicrhau bod eu hadrannau'n gweithredu'r agweddau o'r Cynllun y maent hwy'n gyfrifol amdanynt.

63. Cymeradwywyd y Cynllun gan Fwrdd Perchnogaeth yr ATG ac mae wedi derbyn ei awdurdod yn llawn. Bydd yr ATG yn sicrhau'r canlynol:

- bod uwch swyddog penodedig, sy'n adrodd i'r Prif Weithredwr, yn gyfrifol am weithredu'r cynllun yn llwyddiannus;
- bod yr holl staff yn gyfarwydd â'r Cynllun, yn gwybod sut y dylid ei weithredu a'r hyn a ddisgwyllir oddi wrthynt;
- bod cyfarwyddiadau a chanllawiau ysgrifenedig yn seiliedig ar y Cynllun ar gael i'r rhai sy'n gyfrifol am ei weithredu;
- bod yr agweddau iaith Gymraeg ar wasanaethau'r ATG yn cael eu hintegreiddio o fewn ei phrosesau gweinyddol arferol;
- bod y cyfieithwyr proffesiynol a ddefnyddir yn meddu ar gymwysterau priodol ac y byddant yn gallu darparu gwasanaeth o safon uchel; ac
- y gweithredir y Cynllun mewn dull cynhwysfawr a chyson ar draws yr ATG.

Gwasanaethau a ddarperir ar ran yr ATG

64. Lle bydd gwasanaethau'n cael eu darparu yng Nghymru ar ran yr ATG gan drydydd partiön, byddwn yn sicrhau:

- os oes gan y trydydd parti hwnnw Gynllun Iaith Gymraeg a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, bod y gwasanaethau a ddarperir ar ein cyfer ganddynt yn dod o fewn ei gylch gorchwyl;
- os nad oes gan y trydydd parti Gynllun Iaith Gymraeg, yna pan fyddwn yn nodi'r gwasanaeth sydd i'w darparu bydd yn cynnwys gofynion Cynllun Iaith Gymraeg yr ATG; a
- bod cyfarwyddyd ysgrifenedig yn cael ei roi i staff sy'n ymwneud ag asiantau a chontractwyr yng Nghymru.

Mae hyn hefyd yn berthnasol i fudiadau sy'n cyflawni swyddogaethau statudol ar ran yr ATG.

65. Bydd yr ATG yn monitro i ba raddau y mae'r darparwr gwasanaeth yn cwrdd â'r gofynion hyn, ac yn cael adroddiadau perfformiad rheolaidd ganddynt.

66. Byddwn yn sicrhau bod y cyfieithwyr a ddefnyddir yn gallu cynnig cyfieithiad o safon uchel a'u bod yn gyfarwydd â'r termau technegol priodol. Bydd y safonau'n cael eu monitro'n barhaus.

Monitro

67. Bydd yr uwch swyddog penodedig yn gyfrifol am fonitro ac adolygu'r Cynllun.

Bydd yr ATG yn paratoi adroddiadau mewnol ar y cynnydd a wneir gyda gweithredu'r Cynllun ac yn eu cyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol bob chwe mis.

Bydd y Bwrdd Gweithredol yn derbyn adroddiad cydymffurfio blynyddol er mwyn cyflawni'r amcanion canlynol:

- Mesur a yw'r ATG yn cydymffurfio â'r Cynllun;
- Mesur a yw'r Cynllun yn cael ei reoli'n briodol;
- Dadansoddi ei berfformiad ar sail adrannol a chorfforaethol, er mwyn sicrhau cysondeb;
- Asesu ac ystyried y themâu allweddol gyda golwg ar weithredu'r cynllun;
- Cydnabod unrhyw wendidau sylfaenol, a sefydlu cynllun gweithredu a fydd yn cynnwys amserlen ar gyfer ymdrin â hwy.

Anfonir copi o'r adroddiad hwn at Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

68. Ar amser y cytunir arno gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg, bydd yr ATG yn paratoi adroddiad gwerthuso cynhwysfawr fydd yn asesu a gwerthuso perfformiad wrth weithredu'r Cynllun o'i ddechreuad. Bydd yr adroddiad hwn yn:

- darparu golwg gyffredinol a dadansoddiad thematig ar y cydymffurfiad a'r perfformiad ers i'r cynllun gael ei gymeradwyo, o ddau bersbectif - darparu gwasanaeth a rheoli'r cynllun;
- amlinellu'r blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol, ynghyd ag amserlen ddiwygiedig ar gyfer rhoi camau'r Cynllun ar waith.

Bryd hynny, bydd yr ATG yn adolygu ac yn diweddarau'r Cynllun Iaith Gymraeg.

Targedau

69. Bydd y targedau ar gyfer ymdrin â gohebiaeth, ymholiadau ffôn ayb yn Gymraeg yr un fath a'r rhai a nodir yn ein taflen i gwsmeriaid *Ein hymrwymiad i ofal cwsmer da*.

70. Byddwn hefyd yn:

- pennu un swyddog penodol i fonitro ac adolygu Cynllun Iaith Gymraeg yr ATG; a
- sicrhau bod y gwaith o fonitro'r cynllun yn cael ei strwythuro ac yn broses barhaus sydd hefyd yn berthnasol i gontractwyr sy'n gweithio i'r ATG yng Nghymru.

Cyhoeddi gwybodaeth

71 Byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth ar ein gwefan yn cymharu ein perfformiad â'r safonau a'r targedau a nodir yn y Cynllun hwn. Bydd hyn yn cynnwys materion fel:

- canran yr ohebiaeth Gymraeg a atebwyd o fewn y terfynau amser a bennwyd;
- y nifer o gyhoeddiadau a gyhoeddwyd yn ddwyieithog;
- y perfformiad wrth gwrdd â therfynau amser ar gyfer prosesu hawliadau a cheisiadau a wnaed yn Gymraeg; a
- chanran y siaradwyr Cymraeg mewn swyddi lle nodir bod y gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol.

Os na fyddwn wedi cwrdd â'n targedau, byddwn yn egluro'r rhesymau a'r camau a luniwyd i unioni'r mater.

72 Cynhwysir crynodeb o'r wybodaeth hon yn ein Adroddiad Blynyddol.

Cyhoeddusrwydd i'r Cynllun

73. Bydd yr ATG yn hysbysebu bodolaeth y Cynllun Iaith Gymraeg ym mhob llenyddiaeth sy'n ymwneud â Chymru ac wrth gysylltu'n bersonol â'r cyhoedd Cymraeg eu hiaith. Bydd ar gael i bob aelod o'r cyhoedd yng Nghymru sy'n gofyn amdano, yn ogystal ag i bob aelod o'r staff ac ymgynghorwyr a chynghorwyr allanol a gyflogir gan yr ATG. Rhoddir copi personol o'r Cynllun i'r aelodau hynny o'r staff y mae eu gwaith yn cael effaith uniongyrchol ar y cyhoedd yng Nghymru. Bydd adroddiad blynyddol yr ATG a'n gwefan yn rhoi cyhoeddusrwydd i fodolaeth ei gynllun iaith Gymraeg.

Amserlen

74. Atodir amserlen ar gyfer gweithredu'r cynllun dros y 12 mis nesaf yn Atodiad A.

75. Bydd yr amserlen hon yn dod i rym yn ffurfiol yn yr ATG yn dilyn ei chymeradwyo gan yr ATG a Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Sylwadau

76. Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau ar y Cynllun i: Peter Crewe, Swyddfa'r Prif Weithredwr, Yr Asiantaeth Taliadau Gwledig, Kings House, Blwch Post 69, Reading RG1 3YD. Ffôn: 0118 953 1907

Atodiad A

AMSERLEN AR GYFER GWEITHREDU CYNLLUN IAITH GYMRAEG YR ATG

Camau	Dyddiad Targed
CYNLLUNIO A CHYFLWYNO'R GWASANAETH	
Pob polisi a chynllun newydd i roi ystyriaeth lawn i fesurau'r Cynllun Paragraffau 11-12	Parhaus, e.e. cynhwyswyd darpariaeth iaith Gymraeg yn y trefniadau ar gyfer Canolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid newydd a'r system Cofrestru Cwsmeriaid (rhan o Raglen Newid yr ATG).
Cyfarwyddiadau a chanllawiau gweithio i'r staff Paragraff 15	Cwblhawyd ar gyfer GSGP. Ar gyfer gweddill staff yr ATG - o fewn 3 mis i gyhoeddi'r Cynllun hwn.
Cyflogi cyfieithwyr allanol proffesiynol Paragraffau 15, 62, 66	Contract yn ei le ar gyfer GSGP. Bydd hwn yn cael ei ymestyn drwy'r ATG. Targed: o gyhoeddi'r Cynllun.
Gwasanaethau a ddarperir gan drydydd partion Paragraffau 14, 17, 64-65	Darpariaeth iaith Gymraeg yn gynwysedig mewn contractau, cytundebau lefel gwasanaeth ayb. Parhaus.
Cynnal cofrestr o gwsmeriaid sy'n dymuno gohebu yn Gymraeg. Paragraff 15	Cwblhawyd ar gyfer GSGP. Bydd y system Cofrestru Cwsmeriaid newydd yn cynnal cofrestr ar draws yr ATG. Disgwylir iddo fod yn gwbl weithredol erbyn dechrau 2005.
DELIO AG AELODAU'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG	
Gwasanaeth Cymraeg dros y ffôn Paragraffau 20-24	Llinell gymorth Gymraeg GSGP – parhaus. Llinell gymorth Gymraeg yn y Ganolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid – yn weithredol erbyn Mawrth 2005.
Ateb gohebiaeth Gymraeg yn yr iaith honno Paragraffau 29-31	Parhaus.
Deunydd Cymraeg ar y wefan. Paragraff 32	Y deunydd a nodir yn y Cynllun i'w ychwanegu i wefan yr ATG o fewn 12 mis.
Sianel e-fusnes ddwyieithog	SOG Ar-lein – Parhaus. E-

Paragraff 33	sianelau eraill i'w hystyried fel y datblygir hwy.
WYNEB CYHOEDDUS YR ATG	
Hunaniaeth gorfforedig i fod yn ddwyieithog ar gyfer gohebu gyda'r cyhoedd yng Nghymru. Paragraff 36	Cwblhawyd ar gyfer papur ysgrifennu'r GSGP. Ar gyfer yr ATG – o fewn chwe mis i gyhoeddi'r Cynllun hwn, ac eithrio llythyrau a gynhyrchir gan ein system. Ar gyfer llythyrau a gynhyrchir gan y system byddant yn cael eu caled-godio i gynnwys gwybodaeth ddwyieithog, pan ddiweddarir y tro nesaf.
Gwybodaeth a gyhoeddir gan gynnwys taflenni, ffurflenni a hysbysiadau i'w cynhyrchu ar ffurf dogfennau Cymraeg neu ddwyieithog fel bo angen Paragraffau 39-47	Parhaus. Ar hyn o bryd, mae pasbortau gwartheg a'r ffurflen gais am basbort gwartheg yn gwbl ddwyieithog. Mae ffurflenni cofrestru cwsmeriaid ar gael yn Gymraeg. Fersiynau Cymraeg ar gael ar gyfer cyhoeddiadau corfforaethol ar draws yr ATG, e.e. taflen 'Ein hymrwymiad i ofal cwsmer da'. Asesir dogfennau newydd gan ddilyn y canllawiau a amlinellir ym mharagraffau 39-47 ac Atodiad C. Llawlyfr a ffurflenni cynhyrchwyr OTMS i'w hadolygu yn dilyn newidiadau i OTMS. Cynhyrchir fersiynau Cymraeg yr un pryd. Ffurflenni newydd SOG i'w cynhyrchu'n ddwyieithog o'r cychwyn.
Datganiadau newyddion yn Gymraeg Paragraff 48	Parhaus fel bo angen.
Hysbysebu a chyhoedduswydd yn Gymraeg Paragraff 49-53	Parhaus fel bo angen.
GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN	
Staff sy'n siarad Gymraeg Paragraff 55-58	Staff sy'n siarad Cymraeg mewn swyddi yn y GSGP

	<p>yn y ganolfan alwadau a mannau eraill. Ar hyn o bryd wrthi'n recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg ar gyfer y Ganolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid. Targed: Ionawr 2005.</p>
<p>Sefydlu'r angen ar gyfer hyfforddiant galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg i aelodau unigol o'r staff Paragraffau 59-60</p>	<p>Dosbarthiadau Cymraeg yn cael eu cynnal yn y GSGP. I ystyried gwneud rhywbeth tebyg yn swyddfa Newcastle. Targed: 6 mis ar ôl i'r Ganolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid ddod yn gwbl weithredol.</p>
<p>Sefydlu trefn monitro Paragraffau 67-68</p>	<p>Cwblhawyd ar gyfer GSGP. Bydd hwn yn cael ei addasu i weithredu ar draws yr ATG. Targed: o gyhoeddi'r Cynllun.</p>
<p>Pennu swyddog penodol i fonitro'r Cynllun Iaith Gymraeg. Paragraff 70</p>	<p>Cwblhawyd ar gyfer GSGP (Uned Iaith Gymraeg yn ei lle). Bydd y rôl bellach yn cynnwys gweithgaredd ar draws yr ATG. Targed: o gyhoeddi'r Cynllun.</p>
<p>Adrodd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg Paragraff 68</p>	<p>Cwblhawyd ar gyfer GSGP. Gwneir hyn ar draws yr ATG yn dilyn cyhoeddi'r Cynllun. Targed: Adroddiad blynyddol cyntaf 12 mis ar ôl cyhoeddi'r Cynllun.</p>
<p>Sefydlu trefn gwyno ar gyfer y Cynllun Iaith Gymraeg.</p>	<p>O fewn 12 mis i gyhoeddi'r Cynllun.</p>
<p>Cyhoeddusrwydd i'r Cynllun Paragraff 73</p>	<p>Defnyddio gwefan yr ATG i roi cyhoeddusrwydd i'r cynllun: o fewn 3 mis i gyhoeddi'r Cynllun. Hysbysebu'r Cynllun mewn cyhoeddiadau perthnasol: parhaus, fel y cynhyrchir cyhoeddiadau newydd. Hysbysebu'r Cynllun yn yr Adroddiad Blynyddol: yn flynyddol.</p>
<p>Cyhoeddi a dosbarthu'r Cynllun i'r sawl sydd â diddordeb Paragraff 73</p>	<p>O fewn 3 mis i gyhoeddi'r Cynllun.</p>
<p>Adolygu a diwygio'r Cynllun.</p>	<p>Mewn ymgynghoriad â Bwrdd yr Iaith Gymraeg.</p>

ATODIAD B

Cynlluniau a weinyddir ar hyn o bryd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y System Orlhain Gwartheg (SOG)

Cwotâu Llaeth (CLI)

Cynllun Dros Dri Deg Mis Oed (OTMS)

Cynllun Premiwm Lladd (CPLI)

Cynlluniau Masnachwyr

Cynlluniau Cefnogaeth eraill nad ydynt yn rhai IACS

Cynlluniau i'w gweinyddu ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ôl 1 Ionawr 2005

Y System Orlhain Gwartheg (SOG)

Cwotâu Llaeth (CLI)

Cynllun Dros Dri Deg Mis Oed (OTMS)

Cynlluniau Masnachwyr

Cynlluniau Cefnogaeth eraill nad ydynt yn rhai IACS

ATODIAD C**Siart i'w ddefnyddio ar gyfer ystyried a oes angen cyfieithu dogfen.**

Ystyriaethau	2 bwynt	1 pwynt	0 pwynt
1. Os yw'n ddogfen Cynllun, faint o gwsmeriaid sydd gan y Cynllun yng Nghymru?	50 neu ragor	1-49 (os yw'r ffigwr hwn yn cynnwys pobl y gwyddys eu bod yn siarad Cymraeg)	0
2. Y nifer o gopïau a argreffir ar gyfer cwsmeriaid Cymraeg.	750+	150-750	-150
3. Hyd (y nifer o eiriau <i>newydd</i>)	-5,000	5,000-20,000	20,000+
4. Technegol (h.y. ni fyddai person cyffredin yn medru ei ddeall)	Na	I ryw raddau	Byddai
5. Cynulleidfa darged	Aelodau o'r cyhoedd neu sectorau y gwyddys bod galw am yr iaith Gymraeg ganddynt	Sectorau penodol gyda diddordeb anuniongyrchol i'r cyhoedd	Arbenigwyr mewn sectorau lle na cheir ond ychydig iawn o alw am yr iaith Gymraeg
6. Effaith ar ddefnyddwyr (a fyddai grwpiau neu unigolion dan anfantais drwy beidio â chyfieithu?)	Byddai	I ryw raddau	Na
7. A fydd y ddogfen yn effeithio ar ddeunydd dilynol e.e. a ddyfynnir yn helaeth ohoni mewn deunydd yn y dyfodol?	Bydd	I ryw raddau	Na
8. Galw / diddordeb tebygol – yn seiliedig ar asesiad gwrthrychol neu brofiad yn y gorffennol	Uchel	Canolig	Isel
9. Hirhoedledd (am ba hyd y bydd y ddogfen yn weithredol?)	Dros 2 mlynedd	6 mis – 2 flynedd	Dros dro (-6 mis)
10. Statws	Uchel	Canolig	Isel
11. Natur y ddogfen	Oes	I ryw raddau	Na

– oes yna ongl laith Gymraeg amlwg			
12. Ydy'r ddogfen yn cyfeirio at gynllun sydd â 50 neu ragor o gwsmeriaid yng Nghymru?	Ydy		Na

Dylid adio'r pwyntiau i ddarganfod beth yw cyfradd flaenoriaeth y ddogfen.

20-13 = Bydd y dogfennau hyn yn ddwyieithog.

12-7 = Dylai'r dogfennau hyn fod yn ddwyieithog ond bydd hyn yn
dibynnu ar adnoddau cyfieithu'r adeg honno.

6-0 = Saesneg yn unig, ond yn agored i gael ei hail-ddynodi.

**Dylai cydweithwyr sy'n ansicr am ddynodiad dogfennau holi'r Uned laith
Gymraeg am gyngor.**